# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MERCHER, 10FED CHWEFROR, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol Zoom / Zoom Virtual Meeting**

Pwynt Cyswllt

**Einir Rh Davies**

**01286 679868**

**einirrhiandavies@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2021)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Paul John Rowlinson
E. Selwyn Griffiths
Menna Baines
Judith Mary Humphreys

## Annibynnol (3)

Y Cynghorwyr

Richard Medwyn Hughes
Dewi Wyn Roberts

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor – Y Cynghorwyr Edgar Wyn Owen a Simon Glyn

### Cristnogion a Chrefyddau Eraill

| | |
|---|---|
| Dashu (Scott Smith) | Bwdhaeth |
| Disgwyl Enwebiad | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Awaiting Nomination | Yr Annibynnwyr |
| Gwawr Maelor Williams | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |
| Anest Gray Frazer | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Eurfryn Davies | Undeb Bedyddwyr Cymru |

### Athrawon

| | |
|---|---|
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Cathryn Davey | UCAC |
| Heledd Jones | NUT |
| Disgwyl Enwebiad | ATL |

### Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Edward Parri-Jones | Dyneiddiwr |

# R H A G L E N

**1. GWEDDI**

Myfyrdod tawel neu weddi

**2. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**4. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried..

**5. COFNODION** 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020. (Copi'n amgaeedig)

**6. GWAHODDIAD GAN CYSAGAU** 8

Gwahoddiad i enwebu 4 cynrychiolydd i fynychu Cynhadledd Wanwyn CYSAGAU – sydd i'w chynnal 23 Mawrth 2021, drwy Zoom.

**7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL CYSAG**

Diweddariad ar y Cynnydd gyda Adroddiadau Blynyddol CYSAG ar gyfer 2018-2019 a 2019-2020

**8. YMATEB GAN BRIFYSGOL BANGOR YNGLYN A DYFODOL AG** 9 - 11

I dderbyn a thrafod yr ymateb a dderbyniwyd gan Brifysgol Bangor ynglyn a

Dyfodol Canolfan AG Prifysgol Bangor, a

Dyfodol AG ym Mhrifysgol Bangor

## 9. ADDOLI AR Y CYD

I drafod addoli ar y cyd mewn Ysgolion

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 11/11/20

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Paul J. Rowlinson (Cadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Menna Baines, Judith Humphreys a Selwyn Griffiths

**Cristnogion a Chrefyddau eraill:** Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Tracy Richardson Jones (Yr Eglwys yng Nghymru), Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru)

**Athrawon:** Miriam Amlyn (NASUWT), Cathryn Davey (UCAC)

**Swyddogion:** Buddug Mair Huws (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Gynorthwyol a Chlerc CYSAG) Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau),

Cadarnhawyd, er bod nifer o ymddiheuriadau wedi dod i law, bod cworwm.

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Paul Rowlinson.

## 2. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ail-ethol y Cynghorydd Paul Rowlinson yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020/21

## 3. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Menna Baines yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020/21.

## 4. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Dewi Roberts, Heledd Jones (NEU), Anest G Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Edward Pari-Jones (Dyneiddwyr), Garem Jackson (Pennaeth yr Adran Addysg) a Dashu (Bwdïaeth)

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 6. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

## 7. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd gadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd

2019 fel rhai cywir.

## 8. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Ni chodwyd unrhyw faterion o'r cofnodion.

## 9. YMATEB I YMGYNGHORIAD CWRICWLWM I GYMRU: CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESAU

Nodwyd nad oedd cyfle wedi bod i gyfarfod i drafod yr ymateb a bod ymateb drafft wedi ei rannu gydag Aelodau ar gyfer sylwadau. Ni dderbyniwyd sylwadau pellach.
Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad.

## 10. MATERION YN YMWNEUD A CYSAGau

Cyfeiriwyd at y papurau a dderbyniwyd ar gyfer cyfarfod diwethaf y CYSAGau. Cyfeiriwyd yn benodol at y llythyr 'Cyngor i Ysgolion' ynglŷn â chyd-addoli yn ystod y pandemig a chafwyd cadarnhad fod y llythyr wedi cyrraedd yr ysgolion.
Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad

## 11. PROFIADAU DISGYBLION AC ATHRAWON YN YSTOD Y CYFNOD CLO

Rhannodd MA, CD, EBR a TRJ eu profiadau yn ystod y cyfnod heriol, ble nodwyd mai prin iawn oedd yr amser ar gyfer paratoi.
Cyfeiriwyd at y sialensiau fel
Materion TG - nifer o'r disgyblion heb gyfrifiaduron a/neu gyswllt gwael i'r we a sgiliau rhai teuluoedd ddim cystal ynghyd â phrinder cyfarpar
Lles - nodwyd y pwysau i gadw cyswllt gyda disgyblion yn ystod y cyfnod clo a'r angen am gefnogaeth i'r plant wrth iddynt ddod yn ôl i'r ysgol, ond bod y plant yn gwerthfawrogi bod yn ôl yn yr ysgol a gweld eu ffrindiau.

Nododd CYSAG ei werthfawrogiad o ymdrechion yr athrawon a'r ffaith bod Addysg Grefyddol i weld yn cael yr un sylw yn y cyfnod clo, gan nodi bod yr athrawon wedi gwneud yn dda mewn cyfnod anodd.
Nododd y Cadeirydd fod yr uchod yn ddarlun calonogol iawn, gan gyfeirio at y pwysau ar athrawon oedd yn dysgu o bell ac wyneb yn wyneb fyddai yn siŵr o fod yn gryn straen.
Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad

## 12. YSTYRIED SEFYLLFA ARHOLIADAU TGAU A LEFEL A

Yn dilyn datganiad y Gweinidog Addysg ar 10/11/20 am yr uchod, nodwyd pryder bod y datganiad yn codi llawer o gwestiynau a phryderon. Cadarnhawyd, er nad oes disgwyl i ddisgyblion eistedd arholiadau yn 20/21, bod y disgyblion wedi colli llawer o amser, a dal angen cwblhau tair uned o waith. O ran y drefn, nodwyd bod y profion i gael eu hasesu yn allanol, ond bod angen cael y manylder dipyn cyn y Nadolig, gan fod amser yn prysur fynd heibio. Nodwyd, er gwybodaeth, bod y rhan fwyaf o bynciau yn yr un cwch.

Derbyniwyd yr adroddiad a chytunwyd

1. Ceisio cael yr holl CYSAGau i gysylltu gyda y CBAC i ofn am eglurder cyn y Nadolig
2. Cysylltu gyda CYSAGau eraill, a deilydd portffolio Addysg Cyngor Gwynedd a Siân Gwenllïan i fynegi pryder am y sefyllfa.

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2018-2019 A 2019-2020

Cadarnhawyd ei bod yn ofyn statudol i greu Adroddiad Blynyddol, ac atgoffwyd CYSAG mai Bethan James oedd wedi ei wneud yn flaenorol, ond bod arbenigedd Bethan wedi ei golli oddi ar CYSAG erbyn hyn. Ymddiheurodd y Cadeirydd nad oedd y gwaith wedi ei wneud ar gyfer 2018-19 na 2019-20.

Cytunwyd y byddai BMH yn trafod o fewn yr Adran, ac yna yn cysylltu gyda Bethan James ar ran CYSAG

Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad.

## 14. DYFODOL ADDYSG GREFYDDOL YM MHRIFYSGOL BANGOR A'R EFFAITH AR Y DDISGYBLAETH YN YSGOLION GWYNEDD

Nodwyd mai ysgogiad yr eitem oedd y pryder ynglŷn â'r ail-strwythuro ym Mhrifysgol Bangor a'r pryder am ddyfodol y pwnc. Nodwyd ei bod yn ymddangos bod unig aelod staff Addysg Grefyddol yr Adran yn gadael ddiwedd y flwyddyn er bod traddodiad hir o ddysgu AG yno. Nodwyd ei bod yn ymddangos bod bwriad i ddod ag athrawon i mewn o ysgolion i wneud y rôl dysgu.

Cytunwyd i dderbyniwyd yr adroddiad

## 15. BETH YW DYFODOL CANOLFAN ADDYSG GREFYDDOL Y BRIFYSGOL?

Saif Y Ganolfan ar Safle'r George ac mae ynddi lyfrau ac arteffactau pwysig a nodwyd pryder ynglŷn â beth fydd yn digwydd i'r casgliad hwn.

Nodwyd pryder am y sefyllfa uchod a'r sgil effaith o golli athrawon AG o ganlyniad.

Derbyniwyd yr adroddiad a chytunwyd y byddai y Cadeirydd yn :

1. Gyrru llythyr at Brifysgol Bangor a'r Deilydd Portffolio Addysg yn holi am eu bwriadau, gan nodi pryder CYSAG am y sefyllfa ymarfer dysgu ac adnoddau.
2. Gan hefyd holi am ddyfodol y cwrs TAR yn sgil yr ail-strwythuro and yn sgil hynny dyfodol Canolfan AG Prifysgol Bangor fel adnodd.

Nodwyd y byddai yn ddiddorol gwybod pa golegau sydd yn cynnig cwrs AG Cymraeg ac yn cynnig ymarfer dysgu erbyn hyn.

## 16. HUNAN ASESIAD YSGOLION

Derbyniwyd yr adroddiad.

Nodwyd bod y saith agwedd yn sgorio yn "dda" a llongyfarchwyd yr ysgol.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.15 p.m.

**CADEIRYDD**

**Pwnc:** WASACRE Spring Meeting - 23.03.21

***Scroll down for English***

Annwyl Clerc CYSAG,

Bydd cyfarfod gwanwyn Cymdeithas Cynghori CYSAGau Cymru (CCYSAGauC) yn cymryd lle ar Ddydd Mawrth 23 o Fawrth 2021 trwy 'Microsoft Teams'.  Byddaf yn ddiolchgar os fyddech yn rhannu'r dyddiad ag aelodau CYSAG a gwneud trefniadau ar gyfer i fyny at bedwar cynrychiolydd o'ch CYSAG i ymuno a'r cyfarfod.

Amser cychwyn: 10.30yb (bydd aelodau yn medru ymuno o 10.15yb)
Amser Cloi: 1.00yh.

Bydd mwy o fanylion am y cyfarfod, gan gynnwys papurau a chyfarwyddiau at sut i ymuno a'r cyfarfod yn dilyn mae o law.

Yn gywir
Alice Parry

Ysgrifennydd i CCYSAauC

Ebost at Athro Davies, Prifysgol Cymru Bangor

Annwyl Athro Davies,

**DYFODOL CANOLFAN ADDYSG GREFYDDOL Y BRIFYSGOL**

Gofynnwyd i mi ysgrifennu atoch ar ran Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) Gwynedd. Yn ein cyfarfod diweddar, mynegwyd pryder ynghylch yr ailstrwythuro yn y Brifysgol a'i oblygiadau ar gyfer Addysg Grefyddol. Mae sicrhau cyflenwad o athrawon addysg grefyddol yn hollbwysig ar gyfer dyfodol y pwnc ac yn enwedig rhai sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Prifysgol Bangor yn chwarae rôl bwysig wrth hyfforddi'r athrawon hyn a buasem yn ddiolchgar iawn petaech yn ein goleuo o ran dyfodol y cwrs TAR addysg grefyddol ym Mangor a pha golegau eraill sy'n cynnig hyfforddiant cychwynnol i athrawon AG trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae CYSAG Gwynedd hefyd yn bryderus ynghylch dyfodol Canolfan Addysg Grefyddol y Brifysgol. Mae gan y Ganolfan gasgliad o lyfrau ac arteffactau pwysig a hoffem wybod beth fydd dyfodol yr adnodd gwerthfawr hwn?

Yn gywir iawn,

Paul Rowlinson

Y Cyng. Paul Rowlinson,

Cadeirydd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Gwynedd

copi: Y Cynghorydd Cemlyn Williams, Deilydd y Portffolio Addysg, Cyngor Gwynedd

.....................................

Ymateb Prifysgol Cymru, Bangor

Annwyl Cynghorydd Rowlinson,

Diolch yn fawr am eich e-bost ac ymddiheuriadau am yr oedi wrth ymateb.

Cytunaf fod Prifysgol Bangor yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o addysgu Addysg Grefyddol yng Nghymru, ac yn arbennig felly drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallaf gadarnhau nad yw ailstrwythuro'r brifysgol yn ddiweddar yn cael effaith negyddol ar ein cefnogaeth yn y maes hwn. Mae’r ailstrwythuro wedi arwain, mewn gwirionedd, at ymrwymiad i fuddsoddi’n sylweddol yn elfen Addysg Athrawon yr Ysgol Addysg. Yn ogystal, mae ymrwymiad parhaus a chryf i gynnig Tystysgrif Addysg i Raddedigion mewn Addysg Grefyddol, a phob pwnc arall, drwy gyfrwng Gymraeg. Yn ogystal, efallai eich bod yn ymwybodol bod Addysg Grefyddol yn elfen greiddiol o Feysydd Dysgu a Phrofiad yn y Dyniaethau a chaiff hyn ei addysgu i dros 250 o fyfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon Cynradd, y mae tua’u hanner yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yng Ngholeg y Celfyddydau a’r Dyniaethau, mae penodiad trwy’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn yr Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas hefyd wedi cynyddu'r gallu i addysgu astudiaethau crefyddol yn Gymraeg. Mae staff yr Ysgol Athroniaeth a Chrefydd wedi sefydlu cysylltiadau cryf a chynhyrchiol gydag athrawon sy'n addysgu crefydd, moeseg ac athroniaeth gogyfer â Safon Uwch mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach ledled Gogledd Cymru a Gorllewin Lloegr. Mae adeiladu'r rhwydwaith hwn yn rhan o brosiect tair blynedd, dan arweiniad yr Athro Lucy Huskinson a Dr Josh Andrews ac mae wedi'i ariannu gan yr All Saints Educational Trust. Un o nodau'r prosiect yw annog myfyrwyr Safon Uwch Addysg Grefyddol, Cymraeg a Saesneg, i barhau â'u hastudiaethau yn y pwnc yn y brifysgol.

Gallaf hefyd gadarnhau bod Canolfan Addysg Grefyddol y Brifysgol, a'r stôr adnoddau yn arbennig, yn parhau i fod ar gael i'w defnyddio a bydd yr adnoddau'n parhau i fod mewn gofal da i'w defnyddio gan ein myfyrwyr a chan ysgolion lleol sy'n dymuno eu defnyddio. Mae’r Ganolfan yn parhau i fod wedi'i lleoli yn y llyfrgell ddiogel ar safle’r Normal.

Efallai eich bod hefyd yn ymwybodol ein bod fel arfer yn ei chael yn anodd recriwtio yn y maes hwn. Byddem yn awyddus iawn i drafod unrhyw ffyrdd y

gallem gydweithio a fyddai'n helpu gyda hyn. Bydd Jeremy Griffiths, Cyfarwyddwr CaBan, sef y ganolfan sydd yng ngofal Addysg Gychwynnol Athrawon, yn cyfarfod â holl benaethiaid uwchradd Môn yr wythnos nesaf i gyflwyno ein rhaglen addysg gychwynnol athrawon a thrafod cysylltiadau gwaith agosach rhwng Ysgol Addysg Prifysgol Bangor ac addysg ym Môn. Byddem yn ddigon parod i drafod y maes hwn ymhellach gyda chi.

Rhowch wybod i mi os oes unrhyw beth arall y gallaf ei wneud a allai fod o gymorth.

Cofion

Andrew